# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Saethu a Chadwraeth
# Cofnodion – 14 Mehefin 2022

**Manylion am y cyfarfod**

Dydd Mawrth 14 Mehefin 2022
12.00 – 13:30
Cyfarfod hybrid – Trwy Zoom ac ar y safle (Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel)

**Yn bresennol**

Sam Kurtz AS (Cadeirydd)
Peter Fox AS
Joel James AS
Russell George AS
Sam Rowlands AS
Llyr Gruffydd AS

Bronwen Gardner – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (ysgrifenyddiaeth)
David Boden – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Ian Danby – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Rachel Evans – y Gynghrair Cefn Gwlad
Charles de Winton – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Liam Stokes – British Game Assurance
Matthew Goodall – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helgig a Bywyd Gwyllt
Dominic Boulton – Cymdeithas Ffermwyr Helgig
Mike Bryan (staff cymorth Samuel Kurtz AS, y Ceidwadwyr Cymreig)

**Ymddiheuriadau**

Iain Hill-Trevor – Cymdeithas y Tirfeddianwyr

**Croeso**

Croesawodd Sam yr Aelodau a’r rhanddeiliaid i’r cyfarfod a diolchodd i bawb am eu presenoldeb. Nodwyd yr ymddiheuriadau.

**Helgig a'r GIG – Liam Stokes, Prif Swyddog Gweithredol British Game Assurance (BGA)**

- Sefydlwyd BGA i hyrwyddo, datblygu a sicrhau’r defnydd o helgig drwy greu marchnad ar ei gyfer, wedi’i hategu gan sicrwydd annibynnol. Mae model BGA yn cwmpasu safonau, cofrestru, archwilio ac achredu.
- Mae BGA yn hyrwyddo helgig o Brydain ymhlith y cyhoedd a busnesau. Mae rhywfaint o helgig yn cael ei allforio, ac mae'r Dwyrain Canol yn farchnad ar hyn o bryd, ond mae'r rhan fwyaf yn mynd i'r farchnad ddomestig, sy'n cyd-fynd â'r neges bod helgig yn gynnyrch lleol a chynaliadwy.

- Dechreuodd sgyrsiau cychwynnol BGA â'r GIG yn 2019. Roedd y broses hon yn cynnwys chwe mis o lunio ryseitiau. Dechreuodd cynllun peilot ar raddfa fach yn 2021 a chafwyd adborth cadarnhaol arno.
- Mae chwe ysbyty'r GIG yn Lloegr wedi dechrau treialu cynnwys ffesant, petris a chig carw ar eu bwydlenni. Maen nhw'n defnyddio rhwng 6,000 a 15,000 o adar y flwyddyn yn eu hysbytai. Yn ddiweddar, cynhaliodd BGA weithdy ar gyfer staff arlwyo ymddiriedolaethau eraill y GIG.
- Mae helgig yn gig iach iawn (sy'n cynnwys llawer o haearn a phrotein) ac mae'n aml yn costio llai na chigoedd eraill fel cyw iâr. Mae hyn yn ei gwneud yn ddewis amgen hyfyw.
- Caiff 48,000 o adar eu cyflenwi i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae helgig hefyd yn cael ei gyflenwi i archfarchnadoedd, gan gynnwys 500,000 o adar y flwyddyn i Sainsbury's; 50,000-70,000 i'r Co-Op; 40,000-100,000 i Aldi; 200,000 i Marks and Spencer a 10,000-15,000 i Booths.
- Mae BGA yn gweithio i gynyddu gwerth helgig wrth y giât saethu. Ar hyn o bryd, dim ond un prosesydd sy'n barod i dalu am helgig.

**Cam gweithredu** – Y grŵp i ysgrifennu llythyr at y Gweinidog i dynnu sylw at fanteision helgig yn y GIG.

**Manteision saethu o ran cadwraeth – Ian Danby, Pennaeth Bioamrywiaeth Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain**

- Mae 76,000 o bobl yn saethu yng Nghymru, sy'n arwain at wariant blynyddol o £7.4 miliwn ar gadwraeth ac sy'n cefnogi cyfwerth â 2,400 o swyddi amser llawn yng Nghymru. Dywed 98 y cant o gyfranogwyr yng Nghymru fod saethu yn gwella eu llesiant.
- Tynnodd Ian sylw at effeithiau polisi dwy rywogaeth â blaenoriaeth, sef y gylfinir a'r cyffylog.

**Y Gylfinir**

- Y gylfinir yw'r brif flaenoriaeth ym maes cadwraeth adar yn y DU. Mae'r DU yn gartref i chwarter y boblogaeth fridio fyd-eang, ac mae'r boblogaeth hon wedi gostwng 65 y cant ers y 1970au. Amcangyfrifir bod poblogaeth fridio Cymru yn cynnwys tua 400-1,700 pâr a bod y boblogaeth hon yn gostwng 6 y cant y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y gylfinir wedi darfod fel aderyn bridio yng Nghymru erbyn 2033.
- Mae Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn un o 18 o aelodau o Gylfinir Cymru, sef grŵp a lansiodd gynllun adfer i Gymru ar gyfer y gylfinir y llynedd. Denodd y cynllun gefnogaeth drawsbleidiol yn y digwyddiad i'w lansio.
- Mae'r cynllun yn cydnabod tri phwysau allweddol: colli cynefin, rheolaeth anffafriol ac ysglyfaethu nythod a chywion. Mae'r materion hyn yn effeithio ar y gylfinir ond hefyd ar rywogaethau bregus eraill.
- Amcangyfrifir mai rhostir Rhiwabon, Ardal Bwysig ar gyfer y Gylfinir, sydd â'r nifer fwyaf o ylfinirod bridio fesul cilomedr sgwâr yng Nghymru. Caiff ardal sylweddol o rostir Rhiwabon ei rheoli ar gyfer saethu grugieir. Dengys tystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid fod adar sy'n nythu ar y ddaear yn ffynnu ar rostiroedd sy'n gartref i rugieir.

**Materion polisi sy'n gysylltiedig â mamaliaid**

- Mae’r camau a gymerir i reoli ysglyfaethwyr yn effeithiol yn galw am ystod o ymyraethau i ymdrin ag anifeiliaid ysglyfaethus yn gyffredinol; fel arall, bydd ysglyfaethwyr eraill yn cymryd eu lle.
- Maglau/atalyddion cebl heb greulondeb sy'n gyfrifol am reoli'r rhan fwyaf o lwynogod yn y gwanwyn a'r haf pan fo llawer o lystyfiant, sef yr adeg bwysicaf ar gyfer atal ysglyfaethwyr rhag effeithio ar adar sy'n nythu ar y ddaear.
- Maent yn effeithlon oherwydd gall un gweithredwr osod maglau lluosog ar draws tirwedd. Mae rheoli drwy reiffl yn effeithiol ond yn llafurus.
- Mae’r Blaid Lafur wedi addo gwahardd maglau yng Nghymru, ac mae hyn yn debygol o gynyddu effaith ysglyfaethwyr, yn enwedig cyn ac yn ystod misoedd bridio adar sy'n nythu ar y ddaear.
- Canlyniad hyn fydd dirywiad cyflymach yn niferoedd yr adar sy'n nythu ar y ddaear, gan gynnwys y gylfinir.

**Materion polisi sy’n gysylltiedig ag adar**

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dosbarthu trwyddedau cyffredinol a thrwyddedau penodol ar gyfer rheoli adar o dan adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu tynnu piod, sgrech y coed a jac-y-do o’r drwydded gyffredinol cadwraeth sy’n dechrau ar 1 Gorffennaf. Golyga hyn mai cigfrain bach yn unig sydd bellach yn rhan o’r drwydded gyffredinol at ddibenion cadwraeth.
- Y dewis arall arfaethedig ar gyfer rheoli rhywogaethau penodol yw proses drwyddedu benodol Cyfoeth Naturiol Cymru; fodd bynnag, ni chaiff y broses hon ei defnyddio’n aml. Mae’n broses araf ac, i bob pwrpas, yn ôl-weithredol, sy'n golygu nad yw'r difrod yn cael ei osgoi.
- Mae gwahaniaeth sylweddol yn y camau a ganiateir i reoli ysglyfaethwyr ledled gwledydd y DU, gyda Chymru yn caniatáu i'r nifer lleiaf o rywogaethau gael eu rheoli. Mae'r holl reoleiddwyr yn gyffredinol yn defnyddio'r un sail dystiolaeth, felly mae’n rhaid cwestiynu pam fod cymaint o wahaniaeth yn y dulliau a ddefnyddir.
- Effaith hyn fydd llai o reolaeth ar ysglyfaethwyr cyffredinol niferus, gan arwain at fwy o ysglyfaethu. O ganlyniad, bydd dirywiad rhywogaethau bregus yn cyflymu.

**Cyffylog**

- Cyflwynwyd deiseb i Bwyllgor Deisebau’r Senedd i warchod rhywogaethau sydd mewn perygl difrifol. Nid oes tystiolaeth bod cynaeafu cyffylog yn gysylltiedig â dirywiad rhywogaethau sydd mewn perygl. Mae materion fel colli cynefinoedd a newid hinsawdd yn ffactorau dylanwadol.
- Fodd bynnag, roedd cynaeafu cyffylog yn rhoi cymhelliad i dirfeddianwyr reoli ffactorau eraill sydd o fudd i’r adar hyn. Mae’r gymuned saethu hefyd yn addasu ei harferion gorau, fel annog pobl i saethu cyffylog yn ddiweddarach yn y tymor.
- Mewn ymateb i'r ddeiseb, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod y mesurau gwirfoddol presennol yn fwy effeithiol ochr yn ochr â dilyn canllawiau ac arfer gorau, a bod cymryd camau statudol i fonitro’r adar sy'n cael eu saethu yn amhriodol, yn anymarferol ac yn dyblygu gwaith presennol. Roedd yr ymateb hwn i'w groesawu.

**Unrhyw fater arall**

**Bwledi a chetris plwm**

- Mae UK Reach wrthi'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a ddechreuodd ar 6 Mai ac a fydd yn dod i ben ar 6 Tachwedd 2022. Mae'r ymgynghoriad yn adolygu'r defnydd o fwledi a chetris plwm ar gyfer pob math o saethu, o reiffl awyr i ynnau saethu, ar gyfer saethu clai ac anifeiliaid byw.
- Mae Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain wedi adolygu'r goflen ac wedi cyflwyno gwybodaeth fanwl i UK Reach. Ym marn y gymdeithas, rhaid i unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio bwledi plwm fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â'r risg. Rydym yn annog yr holl aelodau a gweithredwyr meysydd saethu awyr agored i ymateb i'r ymgynghoriad.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 19 Gorffennaf ar stondin Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn y Sioe Frenhinol.